



# **Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai 2022-2026**

## **Datganiad o Angen**

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio 'Datganiad Angen' yn seiliedig ar ganfyddiadau'r asesiad anghenion a gwblhawyd i lywio'r Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai. Mae'r datganiad hwn yn nodi'r gofynion presennol a'r dyfodol o ran tai a digartrefedd, a sut y caiff anghenion statudol a nodwyd eu diwallu drwy gyflawni dyletswyddau statudol.

### **Gwybodaeth gryno ynghylch y boblogaeth:**

- Mae Casnewydd yn parhau i fod yn Ddinas sy'n tyfu, gyda phoblogaeth bresennol o 156,447 (Amcangyfrif Canol Blwyddyn 2020)
- Mae nifer y bobl 65+ oed yn cynyddu'n gymesur o flwyddyn i flwyddyn
- Mae nifer y bobl â dementia yn parhau i gynyddu bob blwyddyn, yn enwedig i'r rhai dros 85 oed
- Mae nifer y bobl sy'n defnyddio banciau bwyd wedi cynyddu 23.5% dros y flwyddyn ddiwethaf, gan godi pryderon am lefelau tlodi, yn enwedig i'r rhai sydd mewn gwaith a'r rhai sy'n economaidd anweithgar
- Casnewydd yw'r ail awdurdod unedol mwyaf amrywiol yng Nghymru ar ôl Caerdydd, gyda thua 13% o'r boblogaeth o leiafrifoedd ethnig ar hyn o bryd
- Yn ogystal, mae Casnewydd yn ardal wasgaru o dan y Gwasanaeth Cymorth Lloches Cenedlaethol, sy'n rhoi pwysau ychwanegol ar dai a gwasanaethau eraill

### **Anghenion a nodwyd:**

- Cymorth yn ôl yr angen ychwanegol i bobl sy'n colli eu cof ac sydd ag afiechydon cyfyngol hirdymor
- Mwy o staff i'r Tîm Cynhwysiant Ariannol
- Sicrhau bod gan bobl o gymunedau amrywiol y Ddinas fynediad cyfartal i'r Grant Cymorth Tai a gwasanaethau digartrefedd
- Gweithio gyda Chyngor Ffoaduriaid Cymru ac asiantaethau eraill, i sicrhau bod gan ffoaduriaid fynediad teg at wasanaethau cymorth tai a digartrefedd

### **Gwybodaeth gryno Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019:**

- Mae gan Gasnewydd 95 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is (ACEHI), ac un ohonynt yw'r 10fed ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru, ac mae 23 (24.2%) ohonynt yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru
- Mae un o ACEHI Casnewydd yn y 10% o ACEHI mwyaf difreintiedig ar gyfer pob maes
- Mae pump AGEHI arall yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig ar draws o leiaf bum maes
- Mae 43% o ACEHI Casnewydd yn y 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer amgylchedd ffisegol, gan gynnwys nifer o ACEHI sydd ymhlith yr ACEHI lleiaf difreintiedig yn gyffredinol
- Un o nodweddion nodedig Malc yw bod rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Casnewydd yn agos at rai o'r rhai lleiaf difreintiedig

- Mae pocedi o amddifadedd difrifol yng Nghasnewydd, ac mae angen targedu adnoddau yn yr ardaloedd hyn er mwyn sicrhau mynediad at wasanaethau

### **Anghenion a nodwyd:**

- Mwy o staff i'r Tîm Cynhwysiant Ariannol
- Sicrhau bod gan bobl o gymunedau amrywiol y Ddinas fynediad cyfartal i'r Grant Cymorth Tai a gwasanaethau digartrefedd

### **Gwybodaeth gryno Asesiad Anghenion Poblogaeth Gwent:**

- Disgwylir poblogaeth Gwent cynyddu 6.2% rhwng 2019 a 2043, disgwylir hefyd y nifer o bobl 65+ i gynyddu 31.2%
- Mae data'r Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yn dangos mai 27% o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) yng Ngwent o fewn yr 20% amddifadus am les cymdeithasol yng Nghymru
- Yn ôl data'r MALIC, mae'r mwyafrif o amddifadedd tai wedi'u lleoli yng nghanol dinas Casnewydd, gyda 12 LSOAs o fewn y 10% mwya' difreintiedig yng Nghymru
- Am lawer o gartrefi incwm isel, mae prynu tŷ yn rhy ddrud ar hyn o bryd - bydd rhai i ymgeiswyr gwario 7.6x eu cyflog; cafodd 695 eiddo fforddiadwy eu cynllunio yng Ngwent am 2020-21
- Mae lefelau uchel o dlodi tanwydd ar gael mewn llawer o ardaloedd yng Ngwent, mae tlodi tanwydd yn effeithio rhwng 8% ac 11% o gartrefi yng Ngwent; gwaethygydd y sefyllfa wrth i brisiau egni codi
- Disgwylir y nifer o gartrefi sengl i godi gan dros 30% o fewn yr 20 mlynedd nesaf, bydd hyn yn effeithio'r galw am dai
- Mae cymunedau o fewn y 10% mwyafrif amddifadus yn ôl iechyd ar gael yng Nghasnewydd, Torfaen, Caerffili, a Blaenau Gwent
- Mae lefelau uchel o amddifadedd incwm a chyflogaeth yng Ngwent. Mae 91 LSOA Gwent o fewn yr 20% uchaf am amddifadedd incwm a 93 LSOA o fewn yr 20% uchaf am amddifadedd cyflogaeth

### **Anghenion a nodwyd:**

- Pwysigrwydd gwaith amlasiantaethol gyda gwasanaethau iechyd, iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf, gwasanaethau Troseddau leuenctid a phlant a gofal cymdeithasol i oedolion er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar lety addas, fforddiadwy a'i gynnal
- Cymorth yn ôl yr angen hyblyg argyfwng/tymor byr
- Gweithio'n agosach gyda landlordiaid a thenantiaid yn y sector Rhent Preifat i atal digartrefedd
- Mynediad amserol i wasanaethau cynhwysiant ariannol

## Gwybodaeth gryno'r Adolygiad Digartrefedd:

- Mae nifer y bobl sy'n cyflwyno'n ddigartref yng Nghasnewydd wedi aros yn gyson, tua 1,900 y flwyddyn am y tair blynedd diwethaf.
- Mae nifer y bobl sengl sy'n cyflwyno'n ddigartref wedi cynyddu yn ystod y pandemig o 62% i 70%, sy'n atgyfnerthu'r angen i awdurdodau lleol gynnig cymorth i aelwydydd ac unigolion na fyddent wedi cael eu hystyried yn flaenorol fel rhai o angen blaenoriaethol
- Mae'r cyfraddau atal digartrefedd wedi gostwng o 49% cyn y pandemig i 42%, ond mae nifer yr achosion atal hefyd wedi gostwng 50% yn ystod 2020/21, gan adlewyrchu'r ddeddfwriaeth Covid dros dro sy'n atal troi allan, cynyddu cyfnodau rhybudd a lleihau cyfleoedd i gyfryngu a chadw llety gyda theulu neu ffrindiau
- Er gwaethaf nifer gwirioneddol debyg o achosion, mae cyfraddau rhyddhad digartrefedd a chanlyniadau cadarnhaol wedi gostwng o tua 26% i 20% a 74% i 63% oherwydd diffyg llety fforddiadwy, symud ymlaen yn ystod y pandemig
- Mae dros 8,000 ar y rhestr aros ar gyfer tai fforddiadwy o fis Tachwedd 2021 ac mae 300 o geisiadau ar gyfartaledd yn cael eu derbyn bob mis
- Mae nifer cyfartalog y ceisiadau a dderbyniwyd fesul eiddo a hysbysebwyd ar gyfer 2021/22 yn fwy na 230, sydd wedi cynyddu o 166 yn 2019/20
- Gostyngodd nifer y tenantiaethau tai cymdeithasol a roddwyd drwy'r Gofrestr Tai Cyffredin yn ystod 2020/21 o tua 1,000 i 751, gyda chyfartaledd o 47% o ddyraniadau i aelwydydd digartref
- Ers mis Mawrth 2020, mae nifer yr aelwydydd a leolir mewn llety dros dro wedi cynyddu o 238 i 385 o fis Hydref 2021 Mae tua 32% o'r rhai sy'n cael eu lletya yn cael eu lletya oherwydd canllawiau Llywodraeth Cymru yn unig, nid o fewn deddfwriaeth Deddf Tai Cymru 2014
- Lleoliadau llety dros dro - 96 y mis ar gyfartaledd; mae'r niferoedd symud ymlaen o lety dros dro yn parhau gyda chyfartaledd o 16 o aelwydydd y mis

## Anghenion a nodwyd:

- Amrywiaeth o Lety Dros Dro addas, hunangynhwysol
- Llawer mwy o gyflenwad o unedau llety person sengl parhaol, fforddiadwy, hunangynhwysol i alluogi: symud ymlaen yn gyflymach o Lety Dros Dro, tai cymorth, hosteli a llety i geiswyr lloches / ffoaduriaid; gweithredu'r agenda ail-letya cyflym yn llwyddiannus yn ogystal â'r bobl sengl hynny ar y gofrestr tai sy'n cynyddu'n barhaus
- Lleihau lefelau llwythi achosion er mwyn sicrhau gwasanaeth o ansawdd a mwy ymatebol i ymgeiswyr digartref
- Mwy o ymgysylltu â'r sector Rhent Preifat i atal digartrefedd a bod yn ffynhonnell llety fforddiadwy o ansawdd da i bobl sengl a theuluoedd digartref

## Gwybodaeth Gryno ynghylch Pobl sy'n Cysgu ar y Stryd:

- Ers mis Mawrth 2020 mae Prosiect Cysgu ar y Stryd Casnewydd wedi gweithio gyda 325 o bobl sy'n cysgu ar y stryd, a chadarnhawyd bod 284 ohonynt yn cysgu ar y stryd

- Mae 90 o bobl sy'n cysgu ar y stryd ar gyfartaledd yn cael eu lletya o chwarter 2 2021/22
- Mae diffyg darpariaeth mynediad uniongyrchol i bobl sy'n cysgu ar y stryd; nid yw llawer o bobl sy'n cysgu ar y stryd eisiau cael mynediad i'r gwasanaethau presennol am amrywiaeth o resymau. Nid yw'r ddarpariaeth hosteli presennol a'r llwybr i'r ddarpariaeth hon drwy'r Porth tai cymorth yn diwallu anghenion pobl sy'n cysgu ar y stryd i gael mynediad i lety diogel yn uniongyrchol
- Ar hyn o bryd mae diffyg llety priodol i alluogi mentrau fel Tŷ yn Gyntaf i fod yn effeithiol; mae gweithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a landlordiaid preifat yn hanfodol i alluogi hyn. Gall tai modiwlar fod yn opsiwn i'w archwilio i fynd i'r afael â diffyg llety fforddiadwy person sengl

### **Anghenion a nodwyd:**

- Diffyg mynediad uniongyrchol / llety argyfwng i bobl sy'n cysgu ar y stryd neu sy'n ddigartref dros dro
- Angen parhaus am gydweithio â gwasanaethau 'cofleidiol', gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, iechyd a gofal cymdeithasol
- Yr angen am unedau llety person sengl fforddiadwy, hunangynhwysol ar gyfer Tŷ yn Gyntaf a mentrau a arweinir gan dai i ateb y galw

### **Gwybodaeth Gryno ynghylch Tai:**

- Mae angen llety un ystafell wely ar 50% o aelwydydd sydd â cheisiadau tai actif cyfredol; ar gyfer aelwydydd sydd â'r lefel uchaf o angen, mae'r ffigur yn codi i 74%. O'r herwydd, mae darparu llety un ystafell wely ar lefelau rhent cymdeithasol yn flaenoriaeth ar hyn o bryd yn y rhan fwyaf o ardaloedd y ddinas
- Mae angen llety tymor byr a thymor hir ar gyfer pobl ag anhawster iechyd meddwl. Bydd llety tymor byr yn rhoi cymorth i alluogi pobl i symud ymlaen i lety annibynnol tra bod angen llety hirdymor ar gyfer y rhai sydd ag afiechyd meddwl mwy parhaus
- Ceisir llety fel dewis amgen i ddarpariaeth lloches i ddioddefwyr trais domestig yn ogystal â darpariaeth ar gyfer menywod sy'n cael eu hecsbloetio'n rhywiol a menywod ag anghenion cymhleth
- Mae angen tŷ adfer, llety cymorth diagnosis deuol a chynllun ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth sy'n rhy anodd i'w rheoli mewn eiddo annibynnol. Bydd angen mewnbwn a chefnogaeth ar y rhain gan y gwasanaethau iechyd
- Mae gwlypdy ar gyfer yfwyr sefydledig sydd ag elfen o ofal cymdeithasol yn fwllch presennol yn y ddarpariaeth llety cymorth
- Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi nodi'r angen am lety i bobl ifanc 18+ oed sy'n gadael gofal
- Y gymhareb pris tai i incwm aelwydydd yng Nghasnewydd yw 7:1 ar hyn o bryd. Pris cyfartalog cyfredol eiddo yng Nghasnewydd yw £227,217
- Rhenti preifat cyfartalog yw £120 yr wythnos ar gyfer eiddo un ystafell wely, £155 y flwyddyn ar gyfer eiddo dwy ystafell wely, £183 yr wythnos ar gyfer eiddo tair ystafell wely

a £253 yr wythnos ar gyfer eiddo pedair ystafell wely, sy'n dangos gwahaniaeth cynyddol gyda'r Lwfans Tai Lleol, budd-daliadau ac incwm

- Bu cynnydd sylweddol yng nghyllid y rhaglen Grant Tai Cymdeithasol yng Nghasnewydd, sy'n galluogi'r ALI i ddatblygu cynlluniau tai cymorth y mae mawr eu hangen
- Mae angen sy'n dod i'r amlwg o'r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer safleoedd tramwy tymor byr, sy'n cael sylw gan gydweithwyr Cynllunio ar sail ranbarthol
- Mae tri chynllun tai cymorth yn cael eu datblygu o dan y rhaglen Cronfa Gofal Integredig, dau ar gyfer pobl 18+ oed sy'n gadael gofal ac un ar gyfer pobl ag anawsterau dysgu

### **Anghenion a nodwyd:**

- Mae angen llety un ystafell wely ar lefelau rhent cymdeithasol yn y rhan fwyaf o ardaloedd y Ddinas
- Mae angen llety tymor byr a thymor hir ar bobl sy'n profi amrywiaeth o anawsterau iechyd meddwl
- Dewis amgen i ddarpariaeth lloches i bobl â phroblemau cam-drin domestig, gan gynnwys unedau mwy gwasgaredig
- Cynlluniau tai cymorth ar gyfer: pobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau ac alcohol, diagnosis deuol / problemau camddefnyddio sylweddau a iechyd meddwl sy'n cyddigwydd, anghenion cymhleth gyda gofal cymdeithasol, gan gynnwys tŷ adfer a llety 'gwlypdy'
- Safle tramwy ar gyfer teuluoedd sipsiwn a theithwyr sy'n troi i'r fwrdeistref, o bosibl ar sail ranbarthol
- Angen mawr am fwy o lety cymorth i bobl sy'n gadael gofal a phobl ifanc ddigartref

### **Gwybodaeth Gryno ynghylch Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol:**

- Mae cyllid GCT ar gyfer gwasanaethau cam-drin domestig wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn yng Nghasnewydd
- Mae Casnewydd wedi cofnodi'r nifer uchaf o achosion Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg yng Ngwent bron bob mis eleni; mae'r rhain yn gyfystyr â rhwng 24% a 42% o holl achosion Gwent
- Mae Canolfannau Cwnsela Cam-drin Domestig Casnewydd yn cyfrif am tua thraean o holl alwadau Gwent bob mis
- Ar gyfer agenda ehangach Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, mae Casnewydd wedi datblygu tŷ diogel i fenywod sy'n profi trais rhywiol, ailfodelu lloches bresennol i fenywod ag anghenion mwy cymhleth gyda chymorth dwys, ac wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu unedau llety gwasgaredig
- Mae diffyg data cadarn ynghylch natur Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Ngwent
- Mae atal ac ymyrryd yn gynnar, mwy o ymwybyddiaeth a mynediad at wasanaethau yn faterion pwysig y mae angen mynd i'r afael â hwy
- Gall cymhlethdodau ariannu greu rhwystrau i ddarparu gwasanaethau

### **Anghenion a nodwyd:**

- Mwy o unedau llety i fenywod ag anghenion cymhleth
- Unedau llety gwasgaredig ychwanegol yn lle'r ddarpariaeth lloches a rennir draddodiadol
- Ailfodelu gwasanaethau cymorth yn ôl yr angen i gynnwys mwy o gymorth argyfwng ac atal ac ymyrryd yn gynnar
- Darpariaeth tai diogel i fenywod sydd mewn perygl o gael eu hecsbloetio'n rhywiol ac yn ariannol

### **Gwybodaeth Gryno ynghylch Adborth gan Ddefnyddwyr Gwasanaeth a Rhanddeiliaid:**

- Amlygodd yr arolwg defnyddwyr gwasanaeth ddiffyg cyswllt wyneb yn wyneb, mynediad gwael at wasanaethau iechyd meddwl a'r gofyniad am weithdrefnau mwy cadarn i reoli absenoldebau gweithwyr cymorth fel meysydd i ganolbwyntio arnynt
- Mae angen ystyried ymhellach y rhwystrau i gymryd rhan mewn ymarferion ymgynghori yn y dyfodol, gan gynnwys adolygiad o'r gwasanaethau digidol sydd ar gael mewn cynlluniau tai cymorth
- Dylai'r broses cynllunio cymorth gynnwys mynd i'r afael â'r mater o gael mynediad at dechnoleg, yn enwedig i'r rhai ag anghenion ychwanegol megis materion iechyd corfforol neu feddyliol
- Tynnodd yr arolwg rhanddeiliaid sylw at yr angen am lety cymorth mwy addas i bobl ag anghenion cymhleth, a mwy o lety un ystafell wely, mwy o lety dros dro, mwy o lety sector rhent preifat fforddiadwy a mwy o lety symud ymlaen
- Mae angen cynllunio cymorth tai iechyd meddwl arbenigol i bobl ifanc ar gyfer y rhai sy'n trosglwyddo o CAMHS i wasanaethau iechyd meddwl i oedolion
- Yn ogystal â thai cymorth penodol ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth a amlygwyd uchod, mae angen prosiectau llety arbenigol ychwanegol ar gyfer pobl â phroblemau alcohol parhaus (hirdymor) a'r rhai sy'n gwella o gamddefnyddio sylweddau ac alcohol (tymor canolig)
- Mae angen mwy o lety a chynlluniau tai cymorth ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed a phobl ifanc 18-25 oed
- Mae ymchwil LHDTTC+ gan Tai Pawb yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i bennu opsiynau tai cymorth ar gyfer pobl LHDTTC+ a sut y gellid gwella eu profiad o gael mynediad at wasanaethau digartrefedd

### **Anghenion a nodwyd:**

- Gwell mynediad a gweithio gyda gwasanaethau iechyd meddwl statudol
- Llety symud ymlaen fforddiadwy
- Tai cymorth i bobl ifanc sy'n trosglwyddo o CAMHS i wasanaethau iechyd meddwl i oedolion
- Cynlluniau i ddarparu ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth a chamddefnyddio sylweddau yn y tymor byr a'r tymor hir
- Tai cymorth i bobl sy'n gadael gofal



- Gwell mynediad at wasanaethau digidol

## **Gwybodaeth Gryno ynghylch Canlyniadau'r Rhaglen Cymorth Tai:**

- Adroddwyd am 3,370 o ganlyniadau yng nghyfnod casglu Ebrill - Medi 2021, cynnydd o 15.5% o'r cyfnod rhwng Gorffennaf a Rhagfyr 2020, sydd yn ei hanfod yn ganlyniad i ddatblygu gwasanaethau newydd ers Ebrill 2021 yn dilyn dyraniad Llywodraeth Cymru o gyllid ychwanegol
- Roedd y pum prif angen cymorth a oedd yn digwydd amlaf yr un fath ar gyfer y tri chyfnod casglu diwethaf – iechyd meddwl, pobl 55+ oed, cymorth generig i atal digartrefedd, pobl ifanc 16-24 oed a menywod sy'n profi cam-drin domestig
- Mae cynnydd sylweddol ar gyfer Ebrill - Medi ar gyfer anghenion cymorth cyffredinol i atal digartrefedd, bron ddwywaith o 6.3% o'r holl bobl a gefnogwyd rhwng Ionawr a Rhagfyr 2020 i 12% ar gyfer Ebrill - Medi 2021
- Cynyddodd nifer y ffoaduriaid a hefyd y menywod sy'n profi cam-drin domestig a gefnogwyd yn raddol dros y cyfnod o 18 mis ers Ionawr 2020
- Y canlyniadau yr oedd pobl angen y cymorth mwyaf ar gyfer y tri chyfnod oedd rheoli llety, rheoli arian a bod yn feddylol iach
- Mae'r canlyniadau llwyddiannus isaf yn ymwneud â mynediad i waith ac addysg

### **Anghenion a nodwyd:**

- Llwybr i weithio i bobl ar lefelau tai cymorth cost uchel a Budd-dal Tai

## **Gwybodaeth Gryno ynghylch y Porth Tai Cymorth:**

- Derbyniwyd 2,858 o geisiadau am gymorth gan y Porth Tai Cymorth rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021, cynnydd bach o 3% o'r flwyddyn flaenorol
- Y 5 prif angen cymorth ar gyfer ceisiadau am gymorth oedd materion iechyd meddwl, cymorth cyffredinol i atal digartrefedd, menywod sy'n profi cam-drin domestig, chamddefnyddio sylweddau a phobl 55+ oed
- Cefnogwyd cyfanswm o 3,973 o bobl ym mhob un o wasanaethau cymorth tai Casnewydd rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn derbyn gwasanaethau cymorth yn ôl yr angen (88.4%).
- Y 5 prif angen cymorth ar gyfer y rheiny a gefnogwyd oedd materion iechyd meddwl, pobl 55+ oed, cymorth cyffredinol i atal digartrefedd, menywod sy'n profi cam-drin domestig a chamddefnyddio sylweddau
- Argymhellodd Panel Symud Ymlaen Casnewydd gyfarfod ym mis Awst; y prif faterion sy'n cael eu profi yw diffyg eiddo sydd ar gael, trosiant araf o stoc tai cymdeithasol, llety fforddiadwy yn y sector rhent preifat a gwaharddiad ar droi allan yn ystod pandemig Covid-19.



### **Anghenion a nodwyd:**

- Angen mawr am fwy o lety symud ymlaen person sengl

### **Argymhellion Ymchwil:**

- Ymchwil Mind Casnewydd – datblygu cynllun amlasiantaethol ar gyfer celwyr, cynllun rhanbarthol posibl
- Ymchwil Prifysgol De Cymru – datblygu tai cymorth hirdymor i bobl â phroblemau alcohol parhaus
- Ymchwil Rhoi Terfyn ar Ddigartrefedd ymysg Pobl Ifanc Cymru – sefydlu nifer o gynlluniau LHDTC+ ledled Cymru

### **Cynigion Rhanbarthol:**

Trafodwyd y cynlluniau canlynol yng nghyfarfodydd Rhanbarthol Swyddogion Arweiniol GCT:

- Cymorth yn ôl yr angen i gyflawnwyr cam-drin domestig
- Cymorth iechyd meddwl fforensig yn ôl yr angen
- Prosiect celwyr, prosiect peilot ar hyn o bryd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cynllun tai cymorth LHDTC+, prosiect ymchwil ar hyn o bryd gyda Chyngor Dinas Casnewydd a Tai Pawb

### **Blaenoriaethau Trosfwaol Rhanbarthol**

- Darparu gwasanaethau effeithiol ac ymatebol o ansawdd uchel
- Ymestyn cydweithio â sefydliadau partner
- Cryfhau ymgysylltiad â defnyddwyr gwasanaeth a hygyrchedd ar eu cyfer